



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 4 Chwefror 2020 am 6.00yh
yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre, Aberteifi

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 4 February 2020 at 6.00pm
at the 36 Pendre Conference Room, Cardigan

Presennol/Present—Y Cyngorwyr/Councillors Clive Davies (*yn y gadair/in the chair*),
John Adams-Lewis, Graham Evans, Wyn Jones, Yvonne O'Neill, Trystan Phillips,
Morvenna Richards a Mr Wynford Jones (*clerc/clerk*), Mrs Eleri Maskell (*darpar glerc/clerk
elect*).

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

**Croesawodd y Dirprwy Faer, y Cyng. Clive Davies, bawb i'r cyfarfod gyda chroeso arbennig i
Mrs Eleri Maskell a fydd yn dechrau yn ei swydd fel clerc y cyngor ar 1 Ebrill.
Cydymdeimlodd gyda theulu'r ddiweddar Mrs Julie Jones a fu'n faeres y dref yn y flwyddyn
1978-79. Dymunodd y gorau i Sioned, priod y Cyng. Trystan Philips, yn dilyn ei thriniaeth
ddiweddar.**

The Chair's Welcome and Personal Matters.

The Deputy Mayor, Cllr Clive Davies, welcomed everyone to the meeting with a special
welcome to Mrs Eleri Maskell who will commence her duties as clerk to the council on 1 April.
Condolences were offered to the family of the late Mrs Julie Jones, who had served as
Mayoress of Cardigan in 1978-79. Cllr Davies wished Sioned, wife of Cllr Trystan Phillips, a
swift recovery following her recent medical treatment.

2. Ymddiheuriadau / Apologies: Y Cyngh. / Cllrs Elaine Evans, Debra Griffiths, Siân Maehrlein,
Catrin Miles, Steffan Morgan, Shan Williams.

3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Phersonol gan Gynghorwyr.
Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyng. / Cllrs John Adams-Lewis	Materion cynllunio / Planning matters
----------------------------------	---------------------------------------

4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 7 Ionawr.

Confirmation of Minutes of 7 January Council Meeting.

**Cynigiwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Wyn Jones bod cofnodion
cyfarfod 7 Ionawr yn gywir.**

Cllr John Adams-Lewis proposed that the 7 January council minutes be recorded as correct;
this was seconded by Cllr Wyn Jones.

5. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Cyllideb y Cyngor 14 Ionawr.

Confirmation of Minutes of 14 January Council Budget Meeting.

**Cynigiwyd gan y Cyng. Wyn Jones ac eiliwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis bod cofnodion
cyfarfod 14 Ionawr yn gywir.**

Cllr Wyn Jones proposed that the 14 January council minutes be recorded as correct; this was
seconded by Cllr John Adams-Lewis.

6. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.

Ni chodwyd unrhyw faterion i'w trafod. No matters arose for discussion.

7. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

8. Cynllunio / Planning:

Rhify Cais / App. No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Sylwadau / Comments
A200066	Tesco Stores, Aberystwyth Road	Display of signage	<i>Nid oes gan y cyngor unrhyw wrthwynebiad.</i> Council has no objection.
A200067	Tesco Stores, Aberystwyth Road	Installation of 1 x Media EV charger with screen, 1 x fast EV charger and 2 steel flagpoles.	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais.</i> Council supports the application.

9. Biliau i'w talu / Bills to be paid.

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhify Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
16/8/19	Prestec: Taliad terfynol am waith ar y Maes Sgrialu. Final payment for work at the Skateboard Park. (See page 1574, item 10 Correspondence [214])	C5	4851	£1,656.00 (276.00)
1/2/20	Tai Aberteifi Ltd.: Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Ionawr / January). Rhent yr Ystafell Gynhadledd/Rent of Conference Room Cyfarfodydd y Cyngor / Council Meetings (7, 14, 21, 28-1-20) Band Lydan (Chwefror) / Broadband (February)	A9 A9 A20	D/D 4852 4852	£250.00 (0.00) £100.00 (0.00) £20.00 (0.00)
1/2/20	L. W. Jones: Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Ionawr/January)	A5	4853	£763.19 (0.00)
29/1/20	Llinos Jones: Cyfieithu ar y pryd / Simultaneous translation (7 & 14/1/20)	A18	4854	£141.60 (0.00)
21/12/19	Papur Bro "Y Gambo": Hysbyseb / Advert (Clerc/Clerk)	A10	4855	£9.00 (0.00)
7/1/20	Telemat: Cynnal yr e-bost ac adnewyddu enw parth. Maintenance of e-mail and renewing zone address	A20	4856	£17.40 (2.90)
6/1/20	Mr Justin Percival, Bike Shop: Cyflenwad trydan i'r goleuadau Nadolig. Electricity supply for Christmas lights	B1	4857	£50.00 (0.00)
31/1/20	Bachan Deche / Handyperson (Ionawr / January)	A19	4858	£151.80 (25.30)
4/2/20	Cered: Menter Iaith Ceredigion: Cyfraniad at Barêd Gŵyl Ddewi. Donation towards the St Davids Day Parade	D13	4859	£500.00 (0.00)

Cynigiodd y Cyng. Yvonne O'Neill bod y biliau a restrwyd yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Trystan Phillips.

CLlr Yvonne O'Neill proposed that the bills be paid; this was seconded by CLlr Trystan Phillips.

Derbyniadau/Receipts:

9/12/19	Lloyds Bank: Llog / Interest	£1.74
18/12/19	Theatr Mwldan (Hysbyseb/Advert: Town map)	£25.00
30/1/20	Cyfraniad i Gronfa'r Maer (trwy law'r cleric) Donation to the Mayor's Fund (received by Clerk)	£5.00

10. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.**(a) Y Cyng. John Adams-Lewis:**

- (i) Ychwanegodd y Cyng. Adams-Lewis llythyr Mr Meirion Jones at restr y llythron a dderbyniwyd yn eitem 11[247] am ofidiau preswylwyr Myrtle Hill, Ffordd Penyparc, am gyflymder traffig. Cytunwyd bod y cyngor yn anfon llythyr a chopiau'r lluniau a'r llythron at Ken Skates, Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru, yn gofyn i'w adran ystyried gostwng cyflymder traffig yr holl ffordd o Aberteifi i bentref Penyparc i 40mya. Copïau i fynd at Lee Waters ac Elin Jones (Aelodau'r Cynulliad). Yn ogystal, mae angen gwneud ymholiadau am ddiweddariad adran Ken Skates i ddarparu palmant o Heol Caemorgan i bentref Penyparc.

- (ii) Cae Chwarae Maesglas: Gofiodd y Cyng. Adams-Lewis am fwrïadau Tai Ceredigion Cyf. gan fod y cwmni wedi penderfynu peidio dymchwel y garejis sydd yno. Cytunwyd bod y cyngor yn ysgrifennu atynt gan ofyn am eu cynlluniau diweddaraf am y safle.
- (iii) Bolard wedi ei ddinistrio ar gyffordd Stryd y Priordy/Neuadd y Dref: Diolchodd y clerc i'r Cyng. Adams-Lewis am sicrhau diogelwch y safle. Mae'r bolard drylliedig yn swyddfa'r clerc ar hyn o bryd.
- (iv) Bydd angen i'r Maer presennol arwyddo dogfennau prydlles Clwb Bowls Aberteifi cyn diwedd ei thymor yn y swydd. Mae'r Cyng. Adams-Lewis wedi eu gadael gyda'r clerc yn ei swyddfa er mwyn cyflawni'r ddefod yma.
- (v) Gofynnwyd i'r cyngor osod swm yn y Gyllideb nesaf (2021-22) er mwyn archebu offer cyfieithu newydd.
- (vi) Mynegodd y Cyng. Adams-Lewis ei farn yn gryf yn erbyn penderfyniad Pwllgor Carnifal Aberteifi i gynnal y carnifal ar y Saboth. Ymatebodd y Cyng. Yvonne O'Neill ar ran y pwllgor y daethpwyd i'r penderfyniad er mwyn darparu'r digwyddiad i deuluoedd yr ardal.

(b) Y Cyng. Catrin Miles (in absentia):

- (i) Aseiad Seilwaith Gwyrdd Ceredigion: Bydd y Cyng. Miles yn mynychu'r sesiwn a gynhelir yn Siambr y Cyngor, Aberaeron ar 27 Chwefror a bydd yn adrodd nôl i'r cyngor fis Mawrth. Yn y cyfamser, croesewir unrhyw syniadau oddi wrth aelodau, o ran safleoedd yn Aberteifi i'w cynnig ar gyfer y prosiect pwysig a chyffrous yma.
- (ii) Mae'r gwaith ar hen bont Aberteifi wedi'i gwblhau ymhell o fewn y pythefnos a neilltuwyd, sy'n newyddion da.

(c) Y Cyng. Elaine Evans (in absentia):

- (i) Mae'r cyngor sir wedi caniatáu gosod bin sbwriel yn ardal Maeshenffordd/Gerddi Napier ar yr amod ni ddefnyddir y bin am wastraff cyffredinol gan breswylwyr.

(a) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) Cllr Adams-Lewis added a letter from Mr Meirion Jones to the list of letters received in item 11[247] regarding the concerns of residents at Myrtle Hill, Penyparc, following a number of serious traffic incidents at the hazardous corner. It was agreed to forward a letter and the accompanying correspondence and photographs to Ken Skates, the Welsh Government Minister for Economy and Transport, requesting his department to consider lowering the speed limit from Cardigan to Penyparc to 40mph. Copies to be forwarded to Lee Waters and Elin Jones (Assembly Members).
The clerk was also requested to include the council's concerns regarding the delay in Ken Skates' department to provide a pavement from Caemorgan Road to the village of Penyparc.
- (ii) Maesglas Play Area: Cllr Adams-Lewis voiced his concerns regarding the ambitions of Tai Ceredigion Cyf. for the site following their decision not to proceed with the deconstruction of the garages. It was agreed to forward a letter to the company requesting their future plans for the site.
- (iii) The damaged bollard on the Priory Street/Guildhall junction. The clerk thanked Cllr Adams-Lewis for securing the safety of the public by covering the hazardous base of the bollard. The damaged bollard is now safely housed in the clerk's office.
- (iv) The lease documents for Cardigan Bowling Club needs to be signed by the present Mayor. They have been retained by the clerk in his office for signature by Cllr Shan Williams.
- (v) Council was requested to place a sum in the next Budget meeting (2021-22) in order to purchase modern translating equipment.
- (vi) Cllr Adams-Lewis voiced his concerns that the Cardigan Carnival Committee had decided to hold the 2020 event on the Sabbath. Cllr Yvonne O'Neill responded on behalf of the committee, stating that Sunday was considered a suitable day for families to attend.

(b) Cllr Catrin Miles (in absentia):

- (i) Ceredigion Green Infrastructure Assessment: Cllr Miles will attend the session which will be held at the Council Chamber, Aberaeron on 27 February, and will report back to the town council at the March meeting. In the meantime, members are invited to forward their ideas regarding sites in Cardigan to be proposed for this exciting and important project.

- (ii) The work on the old bridge in Cardigan has been completed well ahead of the allocated two weeks, which is good news for all.

(c) Cllr Elaine Evans (in absentia):

- (i) The county council has agreed to locate a litter bin in the Napier Gardens/Maeshenffordd area with the condition that the bin will not be used by householders for their general waste.

11. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen</i> <i>Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
231	CSC / CCC (Cathryn Morgan): <i>Gwybodaeth am grantiau (Rhwydwaith Mannau Chwarae Ceredigion). Information for grant aid (Ceredigion Play Area Network)</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 15 Ionawr.</i> Forwarded to all councillors on 15 January.
232	CSC / CCC (Gari Jones): <i>Grant Cronfa Teithio Llesol 2021. Cais am llythyr o gefnogaeth a chais am ystyried cynnig cyfraniad ar ffurf arian cyfatebol fel arwydd pellach i Lywodraeth Cymru o'r gefnogaeth leol.</i> Active Travel Fund grant. Request for supporting letter and an application for consideration of providing a match funding contribution as an indication to the Welsh Government of local support for the schemes.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 21 Ionawr.</i> Forwarded to all councillors on 21 January. <u><i>Cynlluniau / Schemes:</i></u> <i>Rhes y Coleg</i> College Row <i>Heol y Baddondy ger Mwldan</i> Bathouse Road <i>Maes-yr-haf</i> Maes-yr-haf <i>I'w ystyried yng nghyfarfod y Gyllideb 2021-22.</i> To be considered at the 2021-22 Budget meeting. <i>Cytunwyd bod y cyngor yn anfon llythyr o gefnogaeth am y cynllun.</i> It was agreed for the council to forward a letter of support for the improvements.
233	CSC / CCC (Dylan Jones): <i>Cadarnhad bod y meinciau tu allan i Neuadd y Dref wedi eu cywiro a bod y gwaith yn parhau gyda'r ffens yn Netpwl.</i> Confirmation that the benches outside the Guildhall had been repaired and that the fence at Netpool is being dealt with by another section.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 29 Ionawr.</i> Forwarded to all councillors on 29 January.
234	CSC / CCC (Meleri Richards): <i>Sesiwn ymgynghori galw heibio ar gyfer busnesau Ceredigion ar ddatblygu Strategaeth Economaidd newydd ar gyfer Ceredigion (2020-2035).</i> Consultation drop-in session for Ceredigion businesses on the development of the new Ceredigion Economic Strategy (2020-2035)	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 21 Ionawr.</i> Forwarded to all councillors on 21 January. Theatr Mwldan, 29/1/20, 4:00-7:00pm. <i>Mynychwyd gan / Attended by: Y Cyng./Cllrs</i> John Adams-Lewis, Clive Davies, Morvenna Richards.
235	CSC / CCC (Rebecca Duke): <i>Gorchymyn cau ffordd / Road closure order – Upper Mwldan, 10/2/20-28/2/20: Gwelliant troedffordd / Footway improvement</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 21 Ionawr.</i> Forwarded to all councillors on 21 January.
236	CSC / CCC (Gwion Dafydd): <i>Asesiad Seilwaith Gwyrdd Ceredigion.</i> Ceredigion Green Infrastructure Assessment. Meeting to be held at the Council Chamber, Aberaeron on 27/2/20, 1:00-4:00pm.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 4 Chwefror.</i> Forwarded to all councillors on 4 February. The G.I. Assessment will cover Aberystwyth, Aberaeron, Cardigan, Lampeter, Adpar, Llandysul and Tregaron. <i>Gweler eitem / See item 10(b)(i)</i>
237	<i>Cyngor Iechyd Cymuned / Community Health Council: Argyfwng am ddileu llawdriniaethau o fewn y Bwrdd Iechyd.</i> Surgical Disruptions in Hywel Dda University Health Board regarding postponed operations.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 21 Ionawr.</i> Forwarded to all councillors on 21 January.
238	<i>Cyngor Sir Penfro: Tîm y Cynllun Datblygu Lleol: Ymgynghoriad ar y Cynllun Datblygu Lleol Amgen 2 Cynllun Adneuo, yn parhau am wyth wythnos.</i> Pembs. County Council: Local Development Plan Team: Replacement Local Development Plan 2 Deposit Consultation running for eight weeks	<i>Mae'r dogfennau ar gael i'w harchwilio yn swyddfa'r clerc.</i> All documents are available in the clerk's office for viewing.
239	Ben Lake, AS / MP: <i>Dymuniadau'r flwyddyn newydd a phosteri cymorthfeydd.</i> New Year greetings and surgery notices.	<i>Mae'r poster wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd.</i> Poster has been displayed in notice board.

240	<i>Un Llais Cymru: Ymateb i Ymgynghoriad ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).</i> One Voice Wales: Response on the Consultation on the Local Government and Elections (Wales) Bill.	<i>Mae'r ddogfen ar gael yn swyddfa'r clerc.</i> The document is held in the clerk's office. <i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 21 Ionawr.</i> Forwarded to all councillors on 21 January.
241	Mrs Sheila Taylor, 9 Maesydderwen: <i>Awgrymiadau ynglŷn â safle'r hen ysbyty.</i> Suggestions for the site of the old hospital.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 15 Ionawr.</i> Forwarded to all councillors on 15 January. Initiative to be found on a Facebook page.
242	<i>Treialon Cŵn Defaid Rhyngwladol Ceredigion 2020.</i> Ceredigion 2020 International Sheep Dog Trials. <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support.	<i>I'w trafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.
243	Cered Menter Iaith Ceredigion: <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support.	<i>Cytunwyd bod y cyngor yn cyfrannu £500 tuag at gostau Gorymdaith Gŵyl Ddewi 2020.</i> It was agreed to donate £500 to the St Davids Day Parade. <i>See minutes 7/1/20, page 1576, item 14(a)(i)</i>
244	<i>Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys</i> Police and Crime Commissioner: <i>Ymateb i lythyr y cyngor.</i> Response to the council letter regarding a fracas outside the Wine Bar.	<i>Cytunwyd gofyn i'r heddlu ailsefydlu cyfarfodydd PACT.</i> It was agreed to request the police to reintroduce PACT meetings in Cardigan.
245	<i>Newid Hinsawdd: "Anelu at Ddifodiant", Sgwrs yn Gymraeg, 28/2/20, 7:00yh, yn Y Man a'r Lle.</i> Climate Change: "Heading for Extinction", A talk in English, 6/3/20, 7:00pm, Y Man a'r Lle.	<i>Dosbarthwyd taflenni yn y cyfarfod.</i> Leaflets distributed at the council meeting. <i>Bydd y canlynol yn mynychu'r cyfarfodydd:</i> The following will attend the meetings: Y Cyng. / Cllrs John Adams-Lewis, Clive Davies, Morvenna Richards (<i>Saesneg/English</i>)
246	Gardd Farchnad Glebelands Market Garden: <i>Llythyron o gefnogaeth.</i> Letters of support. <i>Cytunwyd cyd-fynd â sylwadau anfonwyd yn ystod Gorffennaf 2019: "Mae Cyngor Tref Aberteifi yn cytuno i ddileu Amod 9 o'r cais cynllunio gwreiddiol. Awgrymwyd plannu'r clawdd 1 medr o fur y ffin."</i> <i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r busnes ac yn dymuno llwyddiant iddo drwy gynhyrchu llysiau a ffwythau lleol i'r gymuned leol.</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 3 Chwefror.</i> Forwarded to all councillors on 3 February. <i>Nodwyd y llythyron.</i> Letters were noted. <i>Members agreed to refer to the observations forwarded in July 2019: "Cardigan Town Council agrees that Condition 9 be removed from the original planning application. It is recommended that the hedge be planted 1 metre from the boundary wall."</i> The council supports the business with its initiative to supply local produce for local people.
247	Ms Jayne Cooke, 1 Myrtle Hill; Mr Wayne Thompson, 2 Myrtle Hill; Mr John Handford, Mr Meirion Jones: <i>Llythyron a lluniau.</i> Letters and photographs of the aftermath of a vehicle incident.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 3 a 4 Chwefror.</i> Forwarded to all councillors on 3 and 4 February. <i>Gweler eitem/See item 10(a)(i)</i>
248	<i>Meysydd Chwarae Cymru: Gwybodaeth.</i> Fields in Trust Cymru: Information.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 4 Chwefror.</i> Forwarded to all councillors on 4 February.
249	<i>Age Cymru Ceredigion: Gwybodaeth am yr uniad gydag Age Cymru Sir Gâr i ffurfio Age Cymru Dyfed o 1 Ebrill 2020.</i> Age Cymru Ceredigion will merge with Age Cymru Sir Gâr to form Age Cymru Dyfed as from 1 April 2020.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
250	<i>Adroddiad y Bachan Deche (Ionawr)</i> Handyperson's Report (January)	<i>I'w drafod tan eitem 13.</i> To be discussed under item 13.
251	Miss T. L. Webb, Flat 2, 53 Pendre: <i>Cywiro mainc ger Aldi.</i> Refurbishing of bench near Aldi.	<i>Cytunodd y Cyng. Adams-Lewis archwilio'r fainc.</i> Cllr Adams-Lewis agreed to inspect the bench.

Dylan Jones:	<i>Swyddog Cynnal a Chadw Adeiladau / Building Maintenance Officer</i>
Cathryn Morgan:	<i>Cydlynnydd Teuluoedd yn Gyntaf / Families First Coordinator</i>
Gari Jones:	<i>Peiriannydd Cynorthwyol Strategaeth Trafnidiaeth / Assistant Engineer Transport Strategy</i>
Gwion Dafydd:	<i>Cynorthwydd Polisi Cynllunio / Planning Policy Assistant, Economy and Regeneration</i>
Meleri Richards:	<i>Cydlynnydd Cymunedau Gwledig / Rural Communities Coordinator</i>
Rebecca Duke:	<i>Swyddog Adain Cau Ffyrdd / Road Closures Officer</i>

12. Adolygiad y dogfennau canlynol:

“Aseiad Risg”

Cymeradwywyd atodiad yr “Aseiad Risg” gan y cyngor.

Cynigiwyd gan y Cyng. Yvonne O’Neill ac eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans ac arwyddwyd gan y Dirprwy Faer, y Cyng. Clive Davies.

“Polisi’r Iaith Gymraeg”:

Cymeradwywyd dogfen “Polisi’r Iaith Gymraeg” gan y cyngor.

Cynigiwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Wyn Jones ac arwyddwyd gan y Dirprwy Faer, y Cyng. Clive Davies.

“Strategaeth Buddsoddi”:

Cymeradwywyd dogfen y “Strategaeth Buddsoddi” gan y cyngor.

Cynigiwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Trystan Phillips ac arwyddwyd gan y Dirprwy Faer, y Cyng. Clive Davies.

“Rheoliadau Ariannol”:

Cymeradwywyd dogfen y “Rheoliadau Ariannol” gan y cyngor.

Cynigiwyd gan y Cyng. Graham Evans ac eiliwyd gan y Cyng. Morvenna Richards ac arwyddwyd gan y Dirprwy Faer, y Cyng. Clive Davies.

Roedd y dogfennau uchod wedi eu blaenyrru ymlaen llaw i’r aelodau ar 28 Ionawr.

Review of the following documents:

“Risk Assessment”:

The “Risk Assessment” schedule was approved by the council.

Proposed by Cllr Yvonne O’Neill and seconded by Cllr Graham Evans.
Signed by the Deputy Mayor, Cllr Clive Davies.

“Welsh Language Policy”:

The “Welsh Language Policy” document was approved by the council.

Proposed by Cllr John Adams-Lewis and seconded by Cllr Wyn Jones.
Signed by the Deputy Mayor, Cllr Clive Davies.

“Annual Investment Strategy”:

The “Annual Investment Strategy” document was approved by the council.

Proposed by Cllr John Adams-Lewis and seconded by Cllr Trystan Phillips.
Signed by the Deputy Mayor, Cllr Clive Davies.

“Financial Regulations”:

The “Financial Regulations” document was approved by the council.

Proposed by Cllr Graham Evans and seconded by Cllr Morvenna Richards.
Signed by the Deputy Mayor, Cllr Clive Davies.

The above documents were forwarded to members on 28 January.

13. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.

Sub-committee matters, Handyperson’s Report and External Organisations.

Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 21 Ionawr

Confirmation of 21 January Sub-committee Minutes.

Cynigiwyd gan y Cyng. Graham Evans ac eiliwyd gan y Cyng. Yvonne O’Neill bod y cofnodion yn rhai cywir.

It was proposed by Cllr Graham Evans and seconded by Cllr Yvonne O’Neill that the minutes are correct.

Materion yn codi Matters arising

Tud. 1584, eitem (a) (*Sefydlu Gweithgor*): Cynigiwyd gan y Cyng. Graham Evans ac eiliwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis bod Gweithgor i archwilio’r posibiladau o ddatblygu egni llanw yr Afon Teifi yn cael ei sefydlu.

Page 1585, item (a) (*Establishing a Working Group*): It was proposed by Cllr Graham Evans and seconded by Cllr John Adams-Lewis that a Working Group be established to explore the options for tidal energy in and around the Teifi River.

Tud. 1585, eitem (b) (Golau ar Lôn Cnwcydintir): Yn dilyn cyfarfod safle ym mhresenoldeb swyddog Western Power ar 29 Ionawr, awgrymwyd gofyn i gontractwyr newid y lampau am rai LED. The officer, Mr Siôn Thomas contacted the council on 4 February stating that Western Power would inspect the supply and provide further information.

Page 1585, item (b) (*Street light at Cnwcydintir Lane*): Following a site meeting with an officer from Western Power on 29 January, it was recommended to request a contractor to update the lights to LED. Cysylltodd swyddog y cwmni, Mr Siôn Thomas, y cyngor ar 4 Chwefror gan ddweud y byddai Western Power yn archwilio'r safle cyn anfon gwybodaeth bellach.

Tud. 1585, eitem (d) (Draeniau): Cytunwyd bod y cyngor yn cysylltu gyda Dŵr Cymru i fynegu pryderon am y falffiau dŵr ger yr afon ac i symud y trefniadau ymlaen i drefnu cyfarfod gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a'r cyngor sir.

Page 1585, item (d) (*Drains*): It was agreed that the council contacts Welsh Water regarding concerns with the water valves and to move on arranging a meeting with Natural Resources Wales and the county council

Tud. 1585, eitem (a) (Personél): Yn dilyn y cyfarfod ar 28 Ionawr, apwyntiwyd Mrs Eleri Maskell i swydd Clerc Cyngor Aberteifi. Roedd yr aelodau oedd yn bresennol yn unfrydol yn eu pleidlais. Gofynnwyd i'r clerc anfon llythyr at Mrs Maskell yn ei gwahodd i ddechrau yn y swydd ar 1af Ebrill 2020. Bydd y clerc yn paratoi'r "Cytundeb Cyflogaeth a Disgrifiad Swydd Clerc" swyddogol mewn da bryd.

Page 1585, item (a) (*Personnel*): Following the meeting on 28 January, Mrs Eleri Maskell was appointed clerk to Cardigan Town Council. The clerk was asked to confirm this decision by forwarding a letter to Mrs Maskell inviting her to commence duties on 1st April 2020. The clerk will also prepare the official "Contract of Employment and the Clerk's Job Description" in due course.

Tud. 1585 (Personél): Cytunwyd gwahodd Mr Roy Evans a Mr Richard Harman i wasanaethu fel brysgyllwyr y cyngor.

Cynigiwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Yvonne O'Neill.

Page 1585 (*Personnel*): It was agreed to invite Mr Roy Evans and Mr Richard Harman to serve as mace-bearers to the council.

Proposed by Cllr John Adams-Lewis and seconded by Cllr Yvonne O'Neill.

14. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.

Any Other Business at the discretion of the Mayor.

(a) **Y Cyng. / Cllr Richard Jones (yn absennol/absent):**

(i) **Diweddariad am y goleuadau Nadolig a'r baneri.**
Update on the Christmas lights and bunting.

(b) **Y Cyng. / Cllr Siân Maehrlein (yn absennol/absent):**

(i) **Diweddariad am systemau larwm (gwregys achub)**
Update regarding an alarm system for the lifebelt.

(c) **Y Bachan Deche / Handyperson:**

(i) **Mae angen gwneud penderfyniad ynglŷn â gwaredu hen gyfarpar maes chwarae Netpwl.**

Cynigiwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis bod y Bachan Deche yn gwaredu'r cyfarpar yn ôl ei allu. Eiliwyd gan y Cyng. Clive Davies.

Decision is required regarding the disposal of the original Netpool play equipment.

It was proposed by Cllr John Adams-Lewis and seconded by Cllr Clive Davies that the Handyperson disposes the old play equipment as he sees fit.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.14yh.

There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 7.14pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date